

CYNLLUN GWEITHREDU AR ADBORTH AGIC Awst 2014	Materion sy'n Peri Pryder	Cam Gweithredu	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Diweddariad ar y Cam Gweithredu	Statws c-a-g
1 Defnyddio Staff Asiantaeth	Roedd yr ysbyty'n defnyddio nifer sylweddol o staff asiantaeth. Ym mis Gorffennaf cyflenwodd gweithwyr asiantaeth 14 o sifftiau nyrsys cofrestredig a 47 o sifftiau gweithwyr cymorth. Ym mis Mehefin, cafodd 15 sifft eu cyflenwi gan nyrsys asiantaeth a chafodd 59 sifft eu cyflenwi gan weithwyr cymorth asiantaeth. Rhaid i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â'r diffygion o ran staffio.	Roedd y staff asiantaeth yn bennaf yn bobl yr ydym wedi bod yn eu defnyddio'n rheolaidd yn y gorffennol ac maent yn gyfarwydd ag Ysbyty Dewi Sant a'r cleifion. Rydym yn mynd ar drywydd recriwtio llawn a'r targed o beidio â defnyddio unrhyw staff asiantaeth	Rheolwr yr Ysbyty, Rheolwr Ffrwd	Cyn gynted â phosibl. Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae Staff newydd yr ydym wedi'u recriwtio'n ymuno â ni ac mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu gostwng nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir	
2 Recriwtio	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried strategaethau recriwtio a chadw effeithiol ar gyfer recriwtio a chadw staff. Yn y 12 mis diwethaf, roedd 14 aelod o staff wedi gadael Ysbyty Dewi Sant, gan gynnwys 4 nyrs ac 8 gweithiwr cymorth.	Rydym wedi cynnal pedwar ymgyrch recriwtio yn nhrefi lleol Carrog, Rhuthun, Llangollen a'r Bala. Rydym hefyd wedi bod mewn ffeiriau recriwtio yn Wrecsam gyda'r canolfannau gwaith. Ar ben hyn rydym wedi recriwtio a chynyddu nifer y staff sydd gennym gyda'r rhan fwyaf o'r swyddi bellach wedi'u llenwi. Ar gyfartaledd, mae dau aelod newydd o staff wedi bod yn dechrau bob mis	Rheolwr yr Ysbyty, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth, Rheolwr Ffrwd	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae ein holl swyddi gwag wedi cael eu llenwi â staff newydd fis diwethaf a'r mis yma. Rydym hefyd wedi recriwtio i'n swydd wag ar gyfer nyrs staff.	
3 Dogfennaeth Gofal A)	Roedd y daflen manylion derbyn ar gyfer claf A yn wag, heb unrhyw gofnod o ddyddiad geni'r claf, dyddiad ei dderbyn, ei statws o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac ati. Canfuwyd copi electronig a oedd wedi'i gwblhau'n rhannol.	Yn dilyn yr ymweliad arolygu rydym bellach wedi cwblhau pecyn derbyn electronig sydd ar gael ar gyfrifiadur y nyrs ar gyfer pob claf newydd a dderbynnir. Ar ben hyn rydym wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn y mae	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae'r ffeil derbyn electronig newydd yn cael ei chyflwyno ac mae staff yn cael eu hyfforddi. Bydd rheolwr yr ysbyty ac uwch nyrsys yn archwilio'r	

		angen iddynt ei gwblhau ar unwaith pan fo unrhyw glaf yn cael ei dderbyn.			holl ffeiliau ar gyfer cleifion newydd a dderbynnir yn fuan wedi iddynt gael eu derbyn.	
B)	Nid oedd unrhyw asesiadau risg/cynlluniau gofal wedi'u llunio ar gyfer claf A .	Gweler yr ymateb ynglŷn â Dogfennaeth Gofal yn adran A.	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus		
C)	Roedd claf A yn cael arsylwadau 1:1 ond nid oedd cynllun gofal wedi'i sefydlu .	Gweler yr ymateb ynglŷn â Dogfennaeth Gofal yn adran A.	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus		
D)	Nid oedd cynllun gofal ar gyfer claf B mewn perthynas ag ymweliadau ag Ysbyty Dewi Sant gan ei fam a'i ffrind.	Er nad oedd cynllun gofal yn ffeil y claf, roedd cynllun rheoli yn swyddfa'r nyrsys ac ar yr hysbysfwrdd staff. Rydym wedi trefnu cyfarfodydd gyda mam y claf a'i ffrind i geisio datrys rhai o'r materion sydd wedi bod yn broblemus ac felly codi pontydd.	Rheolwr yr Ysbyty Aelodau o'r TA	Medi 2014	Mae llythyrau wedi cael eu hysgrifennu at yr unigolion dan sylw ynghylch cyfarfod y gobeithir y bydd yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.	
E)	Nid oedd y cynllun gofal rheoli pwysau ar gyfer claf C yn cynnwys unrhyw nodau penodol o ran ei bwysau targed.	Mae'r cynllun gofal hwn wedi cael ei adolygu ar gyfer y claf yma ac mae wedi cael ymgynghoriad gyda'r dietegydd ac mae pwysau targed wedi cael eu cytuno gydag ef.	Aelodau o'r TA, Staff Nyrsio, Dietegydd	Awst 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae'r claf yn hapus gyda'r ymgynghoriad a'r cynllun gofal y cytunwyd arno	
F)	Roedd gwerthusiad gwael wedi cael ei gynnal o'r cynllun gofal iechyd a rheoli pwysau ar gyfer claf C.	Mae'r cynllun gofal iechyd bellach wedi cael ei adolygu gyda'r claf gan ei nyrs sylfaenol ac mae cynllun rheoli pwysau wedi cael ei gytuno ac mae hwn bellach ar y ffeil.	Aelodau o'r TA Staff Nyrsio Dietegydd	Awst 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae'r claf yn hapus gyda'r ymgynghoriad a'r cynllun gofal y cytunwyd arno	

G)	Sylwadau amhriodol yng nghofnod clinigol y Tîm Amlasiantaethol (TA) ar gyfer claf C a oedd wedi cael eu croesi allan wedyn.	Mae Rheolwr yr Ysbyty wedi ymdrin â'r mater hwn bellach gyda'r aelod o staff dan sylw. Mae'r aelod o staff wedi cael ei roi ar gwrs ysgrifennu dogfennaeth ac adroddiadau amddiffynadwy.	Rheolwr yr Ysbyty, yr Aelod o Staff	Awst 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae'r aelod o staff wedi ymddiheuro am ei sylwadau amhriodol ac wedi bod ar y cwrs ysgrifennu adroddiadau.	
H)	Nid oedd cynllun gofal rhyddhau wedi'i sefydlu ar gyfer claf C.	Ar adeg yr ymweliad roedd y claf hwn yn rhywun a oedd wedi cael ei drosglwyddo i Ysbyty Dewi Sant o Lyn Rhosyn am iddo fod yn rhan o ddigwyddiad a oedd yn fater Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Mae'r heddlu'n dal i ymchwilio i'r digwyddiad hwn ac mae'n bosibl y bydd achos llys yn dilyn. Unwaith y bydd gennym fanylion unrhyw achos yn y dyfodol byddwn yn gallu llunio cynllun rhyddhau priodol ar gyfer y claf yma.	Rheolwr yr Ysbyty, Aelodau'r TA. Cydgysylltydd Gofal Comisiynwyr	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Rydym yn dal i ddisgwyl i Wasanaeth Erlyn y Goron ein hysbysu ynghylch canlyniad eu hymchwiliad.	
I)	Nid oedd cynlluniau gofal ar gyfer claf C yn adlewyrchu proses y TA.	Rydym yn ymwybodol o'r sylwadau a wnaed gan yr arolygiaeth a byddwn yn mynd ati i sicrhau bod proses y TA yn cael ei hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal yn y dyfodol.	Rheolwr yr Ysbyty, Aelodau o'r TA, Uwch Nyrsys	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Rydym wedi cael cyfarfod gydag aelodau o'r TA ac wedi trefnu cyfarfod dilynol arall i sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu proses y TA mewn Cynlluniau Gofal	
J)	Roedd claf D yn cael arsylwadau 1:1 ond roedd y cynllun gofal yn nodi arsylwadau lefel 2, bob 15 munud.	Rydym yn ymddiheuro am yr hepgoriad hwn ac fe siaradwyd gyda'r nyrs sylfaenol dan sylw ynglŷn â'i hamryfusedd. Mae'r cynllun gofal hwn wedi cael ei ddiwygio bellach i adlewyrchu'r lefel gywir o arsylwadau.	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys, Nyrs Sylfaenol	Ar unwaith	Wedi'i gwblhau	

K)	Roedd diffyg llofnodion claf a staff ar y cynlluniau gofal ar gyfer claf D.	Siaradwyd gyda'r nyrs ynglŷn â'r mater hwn ac o'i phlaid hi ei hun dywedodd ei bod newydd ailargraffu ei holl gynlluniau gofal ar ôl eu hadolygu a'i bod yn y broses o drefnu bod y claf, sy'n barod iawn i gydymffurfio, yn llofnodi'r holl gynlluniau gofal ar ôl trafod gydag ef.	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys, Nyrs Sylfaenol	Ar unwaith	Wedi'i gwblhau	
L)	Nid oedd y cynlluniau gofal ar gyfer claf D yn adlewyrchu proses y TA, er enghraifft y drafodaeth a'r penderfyniad ynglŷn ag arsylwadau 1:1 ar gyfer y claf yma.	Rydym yn ymwybodol o'r sylwadau a wnaed gan yr arolygiaeth a byddwn yn mynd ati i sicrhau bod proses y TA yn cael ei hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal yn y dyfodol. Roedd y TA wedi cynnal trafodaeth lawn gyda'r claf ynghylch lefelau ei arsylwadau gan fod hyn wedi digwydd ar ôl digwyddiad a atgyfeiriwyd at y trefniadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.	Rheolwr yr Ysbyty, Aelodau o'r TA, Claf D	Ar unwaith Yn mynd rhagddo'n barhaus	Rydym wedi cael cyfarfod gydag aelodau o'r TA ac wedi trefnu cyfarfod dilynol arall i sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu proses y TA mewn Cynlluniau Gofal	
M)	Nid oedd y cynllun gofal monitro diabetig ar gyfer claf D yn cynnwys digon o fanylion ynghylch monitro'r cyflwr.	Rydym bellach wedi adolygu'r cynllun gofal hwn ac mae cynllun gofal mwy manwl bellach wedi'i roi ar waith yn dilyn trafodaeth gyda'r nyrs gyswllt ar gyfer cleifion diabetig.	Nyrs Sylfaenol, Nyrs Cleifion Diabetig, TA	Ar unwaith	Mae'r claf yn hapus gyda'r ymgynghoriad a'r cynllun gofal y cytunwyd arno . Wedi'i gwblhau.	
4	Dywedodd dau glaf nad oeddent yn ymwybodol o'u cynlluniau gofal ac nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses o'u creu. Rhaid i'r holl gleifion fod yn ymwybodol a chael y cyfle i ddarparu mewnbwn ar gyfer eu cynlluniau gofal a chael copi os ydynt yn gofyn.	Er ein bod yn cydnabod mai dyma'r wybodaeth a roddwyd i'r arolygwyr ar y pryd, byddem yn herio cywirdeb y sylwadau a wnaed. Mae'r holl gleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u gofal ac mae hyn yn cael ei drafod yn llawn gyda hwy yn y TA. Ar ben hynny mae cleifion hefyd yn cael fersiynau hawdd i'w darllen o gynlluniau gofal os ydynt yn gofyn am hyn.	Rheolwr yr Ysbyty, Aelodau'r TA, Nyrsys Sylfaenol	Yn mynd rhagddo'n barhaus		

5	Rhaid cyflwyno cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gyfer yr holl gleifion. Maent yn ddull a dderbynnir yn rhyngwladol ac wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o gyrff awdurdodol cydnabyddedig oherwydd eu cryfderau a'u llwyddiannau.	Rydym wedi bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gyfer cleifion yn Ysbyty Dewi Sant ac mae gweithgor sy'n bwrw golwg ar wneud hyn a'r gweithgor hwnnw'n cynnwys dau gynrychiolydd ar ran cleifion. Byddwn yn cyflwyno hyn yn fuan a byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i wneud hyn.	Rheolwr yr Ysbyty, Aelodau o'r TA, Nyrs Glinigol, Staff Arbenigol yr Ysbyty	Hydref 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Ceir cyfres o gyfarfodydd parhaus i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn gywir a'n bod yn darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau o staff a chleifion.	
6	Mae dau glaf (E/F) wedi bod yn yr ysbyty ers 2005 a 2008 yn y drefn honno. Mae gofyn cynnal adolygiad o'r cleifion hyn i benderfynu a yw'r lleoliad yn dal i fod yn briodol.	Mae'r holl gleifion yn cael eu hadolygu bob tri mis mewn cyfarfodydd Dull Rhaglen Ofal/Cynllun Gofal a Thriniaeth gyda'u cydgysylltwyr gofal a chomisiynwyr. Nid yw'n fwriad gennym i gadw cleifion am yn hwy nag sy'n angenrheidiol a'n dull ni yw eu rhyddhau cyn gynted â phosibl i gyfleusterau camu-i-lawr addas. Yn wir yn y flwyddyn ddiwethaf fe ryddhaodd Ysbyty Dewi Sant wyth claf i leoliadau addas nad ydynt yn ysbytai yn dilyn eu triniaeth. O ran y ddau ŵr dan sylw, mae ganddynt faterion penodol gyda rhywfaint o risg sy'n creu anhawster o ran dod o hyd i leoliadau addas iddynt symud ymlaen iddynt. Maent wedi gwneud yn eithriadol o dda yn Ysbyty Dewi Sant ond mae materion sydd o bwys mawr o ran rheoli risgiau'n dal i fodoli mewn perthynas â hwy. Fodd bynnag rydym yn ymwybodol o bryderon yr arolygiaeth ac wedi gwneud hyn yn hysbys i'r comisiynwyr	Rheolwr yr Ysbyty Seiciatrydd Aelodau o'r TA Cydgysylltwyr Gofal Comisiynwyr	Yn mynd rhagddo'n barhaus	Rydym wedi gofyn am gyfarfod pellach i adolygu'r ddau achos unigol yma a bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos.	

		dan sylw ac wedi gofyn am gyfarfod pellach i fwrw golwg ar y mater hwn sy'n peri pryder i'r arolygiaeth.				
7	Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael i gadarnhau gwybodaeth a phrofiad staff asiantaeth yn amrywiol. Nid oedd unrhyw brofiad wedi'i ddogfennu ar gyfer rhai staff asiantaeth i sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir ar gyfer y cleifion yn Ysbyty Dewi Sant. Rhaid bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am yr holl staff asiantaeth.	Rydym yn ymdrin â'r mater hwn ac wedi cysylltu â'r asiantaethau dan sylw i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer ein rheolwr gwasanaethau cymorth a'n hadran weinyddol. Dim ond dwy asiantaeth yr ydym yn eu defnyddio fel rheol ac rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy i sicrhau eu bod yn darparu'r hyfforddiant priodol ar gyfer staff er mwyn iddynt allu gweithio yn Ysbyty Dewi Sant.	Rheolwr yr Ysbyty, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth, Asiantaethau Dynodedig	Ar unwaith Yn mynd rhagddo'n barhaus	Rydym wedi cysylltu â'r ddwy asiantaeth yr ydym yn eu defnyddio ac maent wedi cytuno i ddarparu'r wybodaeth ofynnol ar ein cyfer.	
8	Roedd rhai ffurflenni sefydlu ar gyfer staff newydd, staff asiantaeth a staff banc heb unrhyw ddyddiadau, heb unrhyw lofnodion staff a dim ond yn rhannol yr oeddent wedi'u cwblhau. Rhaid i'r rhaglen sefydlu ar gyfer yr holl staff gael ei dogfennu'n llawn.	Mae ein hadran weinyddol yn ymdrin â'r mater hwn yn awr. Mae Uwch Nyrsys a staff nyrsio wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau'r holl ddogfennaeth sefydlu ar gyfer staff a bod rhaid i'r ddogfennaeth gael ei chwblhau a'i llofnodi ym mhob achos.	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth, Uwch Nyrsys, Staff Nyrsio	Ar unwaith Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae'r holl ffeiliau'n cael eu harchwilio mewn perthynas â sefydlu staff yn lleol	
9	Mae diffyg system oruchwylio gyson o hyd. Rhaid rhoi system oruchwylio gadarn ar waith ar gyfer yr holl staff .	Mae goruchwylio staff yn dal i fod yn flaenoriaeth ac mae rheolwr yr ysbyty bellach wedi adolygu hyn gydag uwch staff nyrsio i sicrhau bod hyn yn digwydd a bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy ein cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Mae'r holl staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o hyn hefyd yn y cyfarfodydd staff misol.	Rheolwr yr Ysbyty, Uwch Nyrsys, Staff Nyrsio, Gweithwyr Cymorth, Staff Gweinyddol, Staff Ategol	Ar unwaith Yn barhaus	Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa bod angen iddynt fynychu sesiynau goruchwylio. Bydd staff mewn swyddi uwch yn sicrhau bod hyn yn digwydd a bydd hyn yn cael ei fonitro gan reolwr yr ysbyty.	

10	Mae angen gwneud peth wmbreidd o waith adnewyddu i amgylchedd yr ysbyty o hyd. Rhaid i'r rhaglen adnewyddu sy'n mynd rhagddi barhau.	Yn ystod yr wythnos yn dilyn ymweliad yr arolygiaeth cynhaliwyd cyfarfod wedi'i drefnu ynghylch y gwaith adnewyddu ac mae gwahoddiadau i dendro wedi cael eu hanfon ar gyfer y gwaith mawr ac mae disgwyl y bydd y gwaith hwn yn parhau ar garlam o fis Medi 2014.	Rheolwr Ffrwd MHC, Pennaeth Ystadau Rheolwr yr Ysbyty, Tîm y Prosiect	Medi 2014 Yn mynd rhagddo'n barhaus	Mae Bwrdd MHC yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwaith adnewyddu'n cael ei flaenoriaethu ar gyfer Ysbyty Dewi Sant	
11	Yn ystod ein hymweliad roedd pedwar claf yn cael arsylwadau 1:1 a oedd i'w weld yn ormodol ar gyfer gwasanaeth adsefydlu cloëdig. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig fwrw golwg ar y cymysgedd o gleifion i sicrhau bod cleifion a dderbynnir i Ysbyty Dewi Sant yn ymlynu wrth yr amodau cofrestru i sicrhau amgylchedd adsefydlu cyson, gan alluogi cleifion i bontio'r bwlch rhwng yr ysbyty a byw yn y gymuned.	Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei adolygu'n gyson yn enwedig pan fo asesiadau'n cael eu cynnal ar gyfer derbyn cleifion newydd posibl i'r ysbyty. Mae gan y cleifion ystod eang ac amrywiol o afiechydon ac maent yn gleifion y mae eu hymddygiad yn heriol ac felly er mwyn eu diogelwch hwy a diogelwch eraill rydym yn defnyddio arsylwadau 1:1 i sicrhau eu bod yn gallu camu ymlaen trwy'r llwybr gofal ac yn gallu bod â llwybr gofal i'r dyfodol sy'n eu galluogi i gyflawni lefelau priodol o weithredu. Roedd dau o'r cleifion a oedd yn cael arsylwadau 1:1 ar y lefel hon i'w cynorthwyo i atal digwyddiadau a datblygu sgiliau i'w galluogi i weithredu heb y lefel hon o oruchwyliaeth yn y dyfodol.	Aelodau o'r TA, Rheolwr yr Ysbyty, Rheolwr Ffrwd	Yn mynd rhagddo'n barhaus	Bydd yr athroniaeth bresennol a gofal y cleifion yn cael eu hadolygu yn unol â sylwadau gan AGIC yn ystod eu hymweliad	

Monitro Dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – Gweinyddu’r Ddeddf	Fe arolygodd Grŵp yr arolygiaeth ddogfennaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac fe wnaeth rai sylwadau cadarnhaol iawn am arfer nodedig	Rydym yn ddiolchgar i’r arolygwyr am eu sylwadau ar ein dogfennaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a’r modd yr ydym yn gweinyddu’r Ddeddf. Hoffem hefyd gydnabod y gwaith a wnaed gan weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ran ein hysbyty i sicrhau bod dogfennaeth a gweithdrefnau o safon uchel iawn.	Rheolwr yr Ysbyty, Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, Aelodau’r TA	Yn mynd rhagddo’n barhaus		
--	---	---	--	---------------------------	--	--